TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Defnyddwyr TG / Cymorth Systemau TG Lefel 2



**Yn gryno**

Byddwch yn cyfuno sgiliau technegol ar gyfer cynnal a chadw cyfrifiaduron personol gyda sgiliau meddalwedd Lefel 2 i ddatblygu dull mwy cytbwys o ymdrin â chymorth systemau.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... ydych eisiau datblygu gwybodaeth a sgiliau pellach mewn TG

... ydych eisiau symud yn eich blaen at gwrs Addysg Uwch mewn TG

... ydych yn anelu at yrfa ddynamig mewn technoleg gwybodaeth

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn dysgu mwy am osod caledwedd a meddalwedd, cynnal a chadw cyfrifiaduron personol a sgiliau cywiro diffygion er mwyn mynd yn eich blaen i'r diwydiant TG.

Trwy astudio cymhwyster Defnyddwyr TG Lefel 2, byddwch yn gwella eich sgiliau cymorth yn y swyddogaeth TGCh. Bydd y cymhwyster Defnyddwyr TG yn eich galluogi i ddefnyddio amrywiaeth o gymwysiadau a systemau meddalwedd.

Byddwch yn dilyn unedau fel:

Nodweddion sylfaenol cydrannau systemau cyfrifiadurol
Diagnosio problemau
Iechyd a diogelwch
Cydosod, datgymalu, gosod a chynnal a chadw system bwrdd gwaith
Rhwydweithio
Diogelwch cyfrifiadurol

Gall y cwrs hwn eich helpu i symud yn eich blaen at amrywiaeth o rolau TGCh, yn cynnwys:

Technegydd desg gymorth systemau
Gweinyddwr cronfeydd data
Datblygwr cynhyrchion TG

Byddwch yn cael eich asesu drwy gydol y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng aseiniadau ymarferol a byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Diploma City & Guilds Lefel 2 mewn Cymorth Systemau

Diploma City & Guilds Lefel 2 mewn Defnyddwyr TG (ITQ)
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ymuno â'r cwrs, byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch, yn cynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol mewn maes galwedigaethol perthnasol, yn cynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Rhaid ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Mae parchu eraill, brwdfrydedd ynglyn â'r pwnc a

hunangymhelliant yn nodweddion hanfodol a ddisgwyliwn gan bob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus a disgwylir ichi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn TG.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.